Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

BMA Cymru Wales

29 Awst 2024

Annwyl gyfeillion

**Canllawiau'r prosiectau Gwella Ansawdd (QI) ar gyfer 2024-25**

Ymhellach i'r wybodaeth a ddarparwyd i bractisau ar 30 Ebrill 2024, mae'r llythyr hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y prosiectau Gwella Ansawdd ar gyfer 2024-25.

Ym mis Ebrill, nodwyd y byddai cylch prosiect Gwella Ansawdd 2024-25 yn cynnwys dau brosiect, a byddai'r pwyntiau a ddyrennir i'r prosiectau hynny fel y nodir isod:

| | |
|---|---|
| Y prosiect Cefnogi Ymddygiadau Iach (parhad o'r prosiect Ymddygiadau Nad Ydynt yn Iach 2023-24) | 100 o bwyntiau |
| Y prosiect Diogelwch Rhagnodi | 70 o bwyntiau |
| **Cyfanswm** | **170 o bwyntiau** |

Bydd cylch QI y flwyddyn bresennol yn rhedeg tan 31 Mawrth 2025 ac mae'n orfodol i bractisau sy'n cymryd rhan yn y broses QI gwblhau'r ddau brosiect.

Mae manylebau prosiect wedi'u hamgáu gyda'r llythyr hwn, gan roi trosolwg o'r amcanion a'r gofynion er mwyn dangos cyflawniad. Bydd y manylebau hyn yn galluogi practisau i ymgymryd â gweithgareddau QI. Mae templed adrodd yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei ddosbarthu i bractisau erbyn diwedd mis Hydref 2024.

Bydd practisau yn ymwybodol na fydd Audit+ ar gael mwyach ar ôl mis Rhagfyr 2024. Fel y nodwyd ym manylebau'r prosiect, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu cymorth i bractisau i sicrhau y gall gweithgareddau QI ar gyfer 2024-25 barhau ar ôl y dyddiad hwn.

Os oes gennych ragor o gwestiynau, cysylltwch â’r tîm gofal sylfaenol yn eich bwrdd iechyd yn y lle cyntaf.

Yn gywir

Paul Casey

Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol

Llywodraeth Cymru

Lynne Joannou

Cadeirydd

Grŵp Dilynol i'r Trafodaethau

Gareth Oelmann

Cadeirydd

Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru